Tuesday, 25 August 2009
W09765

A494 Llanbedr – Dyffryn – Clwyd - Replacement of Faulty Resurfacing Material

A further two weeks of works will be required on the A494 Llanbedr Dyffryn Clwyd project to replace faulty surfacing material.

Earlier this year work was completed on a new drainage system at this location but it has since been discovered the surfacing material used was not as specified in the designs.

The cost of replacing the defective material and associated costs will be met by the material supplier.

A detailed investigation has been undertaken into the specific nature of the material failure, and the material suppliers have introduced a series of additional measures to ensure failures within the raw materials used are prevented in future.

The work, which includes the total replacement of the previously laid surfacing material, is due to start on 1st September 2009 for two weeks subject to weather conditions.

Due to the tightly constrained nature of the existing carriageway, the works will be undertaken with lane closures utilising a convoy working system with a 10mph restriction. A 7.5 tonne weight limit will also be in force along with its attendant alternative route. Delays are likely and drivers are advised to allow extra time for their journeys.

The North Wales Trunk Road Agency and the Welsh Assembly Government regret the inconvenience to the travelling public whilst these essential works are being carried out. The traffic management arrangements are necessary to provide a safe environment for both road users and the workforce and every effort has been made to ensure the disruption is minimal.

Further information on the A494 can be obtained on the website of the North Wales Traffic Control Centre, www.nwales-traffic.co.uk

Up to date 24 hours travel information is available on 0845 602 6020.

Dydd Mawrth, 25 Awst 2009
W09765

A494 Llanbedr – Dyffryn – Clwyd - Gosod wyneb newydd yn lle'r wyneb diffygiol

Bydd y gwaith o osod wyneb newydd yn lle'r wyneb diffygiol ar ffordd yr A494 Llanbedr Dyffryn Clwyd yn parhau am bythefnos arall.

Yn gynharach eleni, cafodd gwaith ar system ddraenio newydd ei gwblhau, ond ers hynny daeth i'r amlwg nad oedd y deunydd a gafodd ei ddefnyddio fel wyneb ar y ffordd yn cyfateb i'r hyn a oedd wedi'i nodi yn y dyluniadau.

Y cyflenwr fydd yn talu'r gost am ailosod yr wyneb ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae ymchwiliad manwl wedi'i gynnal i natur benodol y diffygion yn y deunydd, ac mae'r cyflenwyr deunyddiau wedi cyflwyno mesurau ychwanegol i osgoi diffygion yn y deunydd crai yn y dyfodol.

Bydd y gwaith o ail osod y wyneb cyfan gyda deunydd newydd yn dechrau ar 1 Medi 2009 ac yn parhau am bythefnos, gan ddibynnu ar y tywydd.

Gan fod y ffordd bresennol yn gyfyng, bydd yn rhaid cau lonydd a defnyddio system hebrwng 10 milltir yr awr pan fydd y gwaith yn cael ei wneud. Bydd cyfyngder pwysau 7.5 tunnell hefyd mewn grym ynghyd â ffordd ddargyfeirio. Mae oedi'n debygol ac mae gyrrwyr yn cael eu cynghori i ganiatáu mwy o amser ar gyfer eu taith.

Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra i'r cyhoedd wrth i'r gwaith hanfodol hwn gael ei gwblhau. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r traffig yn angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch y teithwyr a'r gweithwyr ac rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyn lleied o oedi â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth am yr A494, ewch i wefan Canolfan Rheoli Traffig Gogledd Cymru: www.nwales-traffic.co.uk

Mae'r wybodaeth deithio ddiweddaraf ar gael 24 awr y dydd ar 0845 602 6020.